Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cais am Grant y Rhaglen Brentisiaethau yng Nghymru: Cwestiynau Cyffredin

**Dyddiad: 16/09/26**

**Fersiwn: 01**

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

# Cynnwys

1. Cymhwystra Ymgeiswyr a Modelau Cyflwyno ....... 3
2. Y Broses Ymgeisio, Gofynion a Thystiolaeth ....... 4
3. Cyflwyno Cydweithredol, Partneriaethau ac Is-gontractio ....... 6
4. Amodau Cyllido ....... 8
5. Prentisiaethau Gradd ....... 10
6. Dyraniadau Cyllid a Grantiau ....... 10
7. Cyffredinol ....... 12
8. Perfformiad a Deilliannau Dysgwyr ....... 13
9. Cyflwyno Rhaglenni a Chymwysterau ....... 13
10. Rhwydwaith Darparwyr, Pontio Dysgwyr ac Adolygu'r Rhaglen ....... 14
11. Sectorau, Rhanbarthau a Threfniadau Cyflwyno ....... 14
12. Rhannu Prentisiaethau ....... 15

## 1. Cymhwystra Ymgeiswyr a Modelau Cyflwyno

### 1.1. Sut yr ymdrinnir â dysgwyr sy'n parhau os bydd is-gontractwr yn troi'n dderbynnydd grant uniongyrchol?

Mae rhoi'r flaenoriaeth i barhad dysgu a sicrhau cyn lleied â phosib o darfu ar ddysgwyr a chyflogwyr yn hollbwysig wrth weithredu'r Rhaglen Brentisiaethau newydd o fis Awst 2027.

Prif gyfrifoldeb Medr tuag at ddysgwyr yw sicrhau bod y cyfnod pontio yn cael ei reoli'n gyfreithlon, yn dryloyw ac yn gyson, gan roi ystyriaeth briodol i barhad cefnogaeth, dewis y dysgwr, effeithiau ar gydraddoldeb a'r angen i leihau aflonyddwch hyd yr eithaf.

Gan hynny, polisi diofyn Medr, ar lefel rhaglen, yw i ddysgwr barhau â'r darparydd sy'n cyflwyno'r gefnogaeth ar hyn o bryd lle bo'r darparydd yn parhau i fod yn rhan o'r rhwydwaith cyflwyno. Mae parhad y ddarpariaeth yn allweddol, gan olygu y bydd dysgwyr fel arfer yn parhau gyda'r darparydd sy'n darparu'r gefnogaeth ar hyn o bryd, gan ganiatáu i ddysgwyr ofyn am drosglwyddiad i ddarparydd arall lle bo hynny'n briodol ac yn ymarferol yn weithredol. Rhaid i dderbynwyr grantiau gydweithredu â threfniadau i bontio dysgwyr, trosglwyddo gwybodaeth a threfnu adnoddau. Nid yw Medr yn gallu gorfodi cadwynau cyflenwi neilltuol nac ail-greu modelau contractio blaenorol.

Cyfrifoldeb Medr i brif gontractwr presennol yw rheoli diwedd y berthynas gytundebol bresennol yn unol â'r contract a'r Cynllun Ymadael.  Dylai prif ddarparwyr presennol gydweithredu â threfniadau ymadael, pontio, cyfathrebu â dysgwyr a throsglwyddo gwybodaeth. Byddwn yn ysgrifennu at bob prif ddarparydd yn fuan gan nodi'r trefniadau ar gyfer dirwyn contract y Rhaglen i ben. Ceir gwybodaeth am reoli dysgwyr sydd wedi'u dadleoli yn Atodiad B i Ganllawiau'r Rhaglen, adrannau 7.35 – 7.38.

### 1.2. A all Medr roi eglurhad pellach ynghylch sut y bydd yn diffinio ac yn asesu gwahanol fathau o ddarparwyr o fewn y model grant newydd, gan gynnwys darparwyr presennol, darparwyr newydd, is-gontractwyr, partneriaethau cydweithredol a chonsortia?

Bydd pob cais gan bob ymgeisydd yn cael ei asesu mewn modd tryloyw, cyfartal a chyson yn erbyn y dystiolaeth a geir ar eu ffurflen gais, fel yr amlinellir yn Atodiad D Fframwaith Asesu a Sgorio Grantiau.

### 1.3. Os yw is-gontractwr cyfredol yn gwneud cais annibynnol, sut y caiff ei ddosbarthu a pha drothwyon cyllido fydd yn berthnasol?

Gall unrhyw sefydliad sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra, waeth beth fo'i statws o fewn y rhaglen sydd wedi'i chomisiynu'n gyfredol, wneud cais.

Ar gyfer Elfen 1, i ddibenion cynllunio a sicrwydd, mae Medr yn disgwyl i ymgeiswyr allu dangos y capasiti i reoli grant gwerth hyd at £5m y flwyddyn, gan gynnwys dechreuwyr newydd a dysgwyr sy'n parhau. Meincnod gallu yw hwn ac nid yw'n gwarantu dyraniad o'r swm hwnnw. Bydd dyraniadau grant blynyddol gwirioneddol yn cael eu pennu'n unol â'r fethodoleg ddyrannu fel yr amlinellir ym mharagraffau 6.10 – 6.12, a gallent fod yn llai na £5m. Ar gyfer darparwyr newydd heb ddysgwyr sy'n parhau, mae Medr yn rhagweld

mai gwerth y grant lleiaf yn y flwyddyn gyntaf fydd £1.5m, yn dibynnu ar y fethodoleg dyrannu, amodau'r rhaglen a'r gyllideb sydd ar gael.

### 1.4. A yw cyflogwyr wedi'u heithrio rhag gallu cyflwyno cais am grant?

Ni chaiff unrhyw sefydliad ei eithrio rhag gwneud cais am grant, ar yr amod ei fod yn bodloni'r meini prawf cymhwystra. Bydd pob ymgeisydd yn cael ei asesu mewn modd cyfreithlon, cyfartal, tryloyw a chyson.

## 2. Y Broses Ymgeisio, Gofynion a Thystiolaeth

### 2.1. Sut fyddwch chi'n ymdrin â'r cyfyngiad o 1000 o eiriau?

Ni fydd eich ymateb yn y cais ond yn cael ei asesu hyd at yr uchafswm o 1,000 o eiriau fesul cwestiwn. Ni fydd unrhyw ymatebion y tu hwnt i'r 1,001 o eiriau yn cael eu hystyried.

### 2.2. A oes uchafswm geiriau ar gyfer yr ymateb "Model Cyflwyno" fesul sector?

Er nad oes terfyn geiriau, dylai'r ymatebion fod yn fanwl, yn berthnasol ac wedi'u mynegi'n glir a chryno.

### 2.3. A allwch amlinellu'r broses a ddefnyddir i adolygu a gwerthuso ceisiadau?

Bydd ceisiadau Cam 2 yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf asesu cyhoeddedig gan ddefnyddio'r fethodoleg sgorio 0-5. Bydd yr asesiad yn ystyried ansawdd a chryfder cyffredinol y dystiolaeth a ddarperir mewn ymateb i bob cwestiwn. Ni chaiff rhaglenni na llwybrau unigol eu sgorio ar wahân o fewn cwestiwn. Yn hytrach, bydd aseswyr yn gwerthuso'r ymateb cyfan yn erbyn y meini prawf cyhoeddedig.

Caiff sgoriau cwestiynau eu cyfuno i greu sgoriau adrannau, a bydd sgoriau adrannau'n cael eu pwysoli i gynhyrchu sgôr asesiad cyffredinol. Dylai ymgeiswyr sicrhau bod eu hymateb yn darparu tystiolaeth ddigonol a chymesur i ddangos eu gallu a'u dull o weithredu ar draws yr holl raglenni a'r llwybrau arfaethedig sydd wedi'u cynnwys yn y cais.

### 2.4. Pa dystiolaeth y bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ei darparu yng Nghamau 1 a 2 y broses ymgeisio? A fydd rhai adrannau'n cael eu hasesu ar sail ddatganiadol?

Mae Atodiad A Cais am Grant y Rhaglen Brentisiaethau yn amlinellu enghreifftiau o'r dystiolaeth a gaiff ei hasesu. Mae angen cymysgedd o wybodaeth naratif a datganiadol.

### 2.5. Pa dystiolaeth fydd ei hangen i ddangos ansawdd, profiad o gyflwyno prentisiaethau, cyrhaeddiad daearyddol, ymgysylltiad cyflogwyr ac arbenigedd yn y sector?

Mater i'r ymgeiswyr yw ystyried pa dystiolaeth sy'n briodol i gefnogi eu cais. Mae Cwestiynau 5 a 6 yn y Cais am Grant y Rhaglen Brentisiaethau yn Atodiad A yn amlinellu

enghreifftiau o dystiolaeth a fydd yn cael ei hasesu. Mae Atodiad D Fframwaith Asesu Grantiau hefyd yn rhoi canllawiau ychwanegol ar y fframwaith asesu a sgorio.

### 2.6. Ac ystyried bod angen cyflwyno ceisiadau o fewn cyfnod byr, os nad yw sefydliad yn barod o fewn yr amserlen gychwynnol, pryd fydd y cyfle nesaf i wneud cais?

Cynhelir adolygiad ffurfiol o'r rhaglen ar ôl pedair blynedd a allai arwain at fwy o newidiadau mawr; bydd hefyd yn gyfle i ddarparwyr pellach wneud cais am, a derbyn, cyllid grant o dan y rhaglen, yn unol ag amodau'r rhaglen, a'r gyllideb sydd ar gael.

### 2.7. Oes rhaid ichi gwblhau pob rhan o'r ceisiadau, waeth a ydynt yn cael eu sgorio ai peidio?

Rhaid cwblhau pob adran o'r ffurflen gais waeth beth fo'r drefn sgorio, gan fod hyn yn darparu gwybodaeth allweddol am y darparydd, y trefniadau cyflwyno a'r ddarpariaeth yn y sector.

### 2.8. A oes sgôr ansawdd trothwy gofynnol y mae angen i dendrwyr ei chyrraedd, naill ai'n gyffredinol neu ar gyfer cwestiynau unigol.

Canlyniad Cam 1 yw llwyddo neu fethu. Yng Ngham 2, ni chyhoeddir sgôr trothwy gofynnol ar gyfer ansawdd, marc llwyddo cyffredinol, na sgôr isafswm ar gyfer cwestiynau unigol. Caiff ceisiadau Cam 2 wedyn eu hasesu drwy ddefnyddio'r meini prawf cyhoeddedig yn Atodiad D.

### 2.9. A fydd dolenni sydd wedi'u cynnwys yn yr ymateb i'r cais am grant yn cyfrif tuag at y sgôr gwerthuso?

Cewch gynnwys dolenni yn eich ateb i ddarparu tystiolaeth o'i gynnwys. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio dolen yn lle ateb y cwestiwn.  Ni fydd dolenni'n cael eu hystyried yn rhan o sgôr yr asesiad.

### 2.10. Sut fyddwch chi'n gwirio dilysrwydd tystiolaeth a roddir gan ddarparwyr nad ydynt yn brif ddarparwyr ar hyn o bryd?

Bydd pob ymgeisydd, gan gynnwys sefydliadau nad ydynt yn brif ddarparwyr ar hyn o bryd, yn ddarostyngedig i'r un gofynion asesu yng Ngham 1 a Cham 2. Gall Medr ofyn am dystiolaeth ategol i ddilysu datganiadau a wneir mewn ceisiadau a gall geisio eglurhad lle bo angen.

### 2.11. A ddisgwylir i ddarparwyr newydd fod wedi cwblhau'r asesiadau sy'n ofynnol o fewn amodau'r fframwaith rheoleiddio fel rhan o'r broses ymgeisio, neu pan ddyfernir y grant?

Mae'r cam cyntaf yn sefydlu a yw ymgeisydd yn gymwys i dderbyn cyllid cyhoeddus drwy gadarnhau ei fod yn bodloni amodau cyllido Medr. Rhaid cynnwys yr holl wybodaeth allweddol am yr ymgeisydd a'i allu i fodloni Amodau Cyllido Medr wrth ateb yn rhan o'r broses ymgeisio.

## 3. Cyflwyno Cydweithredol, Partneriaethau ac Is-gontractio

### 3.1. A fydd y model grant newydd yn gweithredu mewn ffordd debyg i'r trefniadau presennol, gan ganiatáu cyflwyno'n gydweithredol drwy is-gontractio, partneriaethau neu gonsortia? Os felly, pa ofynion sy'n berthnasol o ran strwythur cyfreithiol, atebolrwydd a chyflwyniad y trefniadau hyn yn y cais?

Bydd. Mae Medr yn annog trefniadau cyflwyno cydweithredol, gan gynnwys is-gontractio, partneriaethau, consortia a modelau cydweithredol eraill ar draws pob elfen o'r rhaglen. Bwriedir i'r trefniadau hyn gefnogi darpariaeth ar raddfa ddigonol ledled Cymru, gan sicrhau ymdriniaeth ar draws sectorau a rhanbarthau, gan gynnal darpariaeth prentisiaethau o ansawdd uchel. Gall hyn gynnwys gweithio gyda sefydliadau arbenigol dan arweiniad cyflogwyr lle mae partneriaethau o'r fath yn cefnogi ymgysylltiad cyflogwyr, dilyniant dysgwyr a chyflwyno prentisiaethau o ansawdd uchel.

Nid yw Medr wedi rhagnodi na diffinio strwythurau cyfreithiol penodol ar gyfer y trefniadau hyn. Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yw pennu a disgrifio eu model cyflwyno a'u trefniadau llywodraethu arfaethedig yn eu cais.

Y sefydliad sy'n derbyn y cyllid Dyfarniad Grant, fel y prif ddarparydd, sy'n dal atebolrwydd cyffredinol a chyfrifoldeb cytundebol dros gyflawni. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am reoli llywodraethu, perfformiad, sicrhau ansawdd a pherthnasoedd ag unrhyw is-gontractwyr neu sefydliadau partner.

Pan ddefnyddir is-gontractwr neu bartneriaid i gyflwyno, cyfrifoldeb y prif gontractwr yw pennu'r trefniadau priodol a chynnal unrhyw wiriadau diwydrwydd dyladwy angenrheidiol. Bydd y prif gontractwr yn parhau i fod yn gyfrifol am ansawdd, rheolaeth a goruchwyliaeth dros yr holl ddarpariaeth a gyllidir drwy'r dyfarniad grant

### 3.2. A yw'n bosibl i brifysgol a darparydd hyfforddiant wneud cais gyda'r brifysgol yn brif ddarparydd, gyda'r bwriad o gyflwyno llwybr llawn wedyn, o lefel 2 i 6?

Mae Medr yn annog trefniadau cydweithredol, gan gynnwys modelau consortiwm neu sefydliadau partner, gan gynnwys modelau is-gontractio ar gyfer darparwyr sy'n gwneud cais i gyflwyno pob elfen o'r rhaglen.

### 3.3. Sut y dylid cyflwyno trefniadau cydweithredol presennol o fewn y broses ymgeisio?

Mae hyn wedi'i amlinellu yn adran 2 yn Atodiad A y pecyn cais am grant.

### 3.4. Sut fydd Medr yn gwahaniaethu rhwng perfformiad is-gontractwyr a'r sicrwydd ansawdd a'r gefnogaeth a ddarperir gan brif ddeiliaid contractau?

Cyfrifoldeb Deiliad y Dyfarniad Grant fydd monitro a sicrhau ansawdd yr holl ddarpariaeth a roddir allan ar is-gontract, ac i wneud trefniadau priodol i'w alluogi i wneud hynny. Os

bydd Deiliad Dyfarniad Grant yn canfod problemau gydag is-gontractwyr unigol sy'n effeithio ar berfformiad cyffredinol y rhaglen, bydd Medr yn rhoi ystyriaeth i'r ffactorau hyn, yn amodol ar ddarparu gwybodaeth i egluro sut yr ymdrinnir â'r problemau dan sylw o dan y trefniadau newydd. Dylai darparwyr gynnwys yr wybodaeth hon yn y cais ac unrhyw gamau a gymerwyd ganddynt i wella deilliannau/perfformiad.

### 3.5. Os oedd ymgeisydd yn gweithredu fel is-gontractwr, sut fyddech chi'n asesu ei berfformiad yn y gorffennol?

Rydym yn cydnabod, o dan y model is-gontractio cyfredol, y gallai deilliannau dysgwyr a mesurau perfformiad ehangach fod wedi cael eu cyflawni o fewn fframwaith o gefnogaeth, goruchwyliaeth a sicrwydd ansawdd, wedi'i ddarparu gan ddarparydd arweiniol a gyllidir yn uniongyrchol, ac y gallai perfformiad amrywiaeth o asiantau cyflwyno fod wedi effeithio ar y deilliannau hynny. Nid ydym felly'n tybio bod data ar berfformiad hanesyddol yr ymgeisydd yn unig yn dangos ei allu i weithredu'n llwyddiannus fel darparydd a gyllidir yn uniongyrchol.

### 3.6. A fydd Medr yn annog prif ddarparwyr i weithio gyda sefydliadau arbenigol dan arweiniad cyflogwyr i greu llwybrau dilyniant o raglenni cyn-gyflogaeth i brentisiaethau, yn enwedig lle bo gan y sefydliadau hynny eisoes berthnasoedd â chyflogwyr a'u bod yn cyflwyno cymwysterau cymhwysedd galwedigaethol?

Bydd. Mae Medr yn annog trefniadau cydweithredol, gan gynnwys modelau consortiwm, sefydliad partner ac is-gontractio.

### 3.7. A oes angen cadarnhau pob partner/cydweithiwr yng ngham 1, ac a ellir gwneud newidiadau i fodelau cyflwyno a rhanbarthau (a phartneriaid) yng ngham 2?

Gofynnir i ymgeiswyr yng Ngham 1 gynnwys eu model cyflwyno arfaethedig (e.e. trefniant consortiwm neu brif ddarparydd ac is-gontractio) a darparu manylion yr is-gontractwyr neu aelodau consortiwm arfaethedig, ynghyd â manylion y diwydrwydd dyladwy a gyflawnwyd ar y sefydliadau hynny. Fodd bynnag, rydym yn deall y gallai'r rhain newid a gellir eu diweddaru ynghyd â'r rhanbarthau a'r sectorau y cyflwynir ynddynt yn rhan o broses ymgeisio cam 2.

### 3.8. A ellir enwi partner cyflwyno mewn mwy nag un cais? A chyflogwyr sy'n bartneriaid cyd-gyflwyno gyda gwahanol ddarparwyr hyfforddiant?

Y prif gontractwr sy'n gyfrifol am bennu ei drefniadau is-gontractio ac am gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy priodol i sicrhau bod is-gontractwyr yn bodloni'r safonau a'r rhwymedigaethau gofynnol.

### 3.9. A yw prif ddarparydd yn gallu gwneud cais i ychwanegu partneriaid cydweithredol ychwanegol neu newydd yn ystod y cyfnod o 4 blynedd.

Ydy

**3.10. Bydd y mae'n rhaid ei gytuno â phartneriaid ym mhob cam o'r cais?**

**3.10.1. Pa gytundebau llywodraethu, diwydrwydd dyladwy ac ymrwymiadau y mae'n rhaid eu cwblhau yng Ngham 1, Cam 2 a chyn dechrau cyflwyno prentisiaethau?**

**3.10.2. A all ymgeiswyr ddefnyddio gwahanol fodelau cyflwyno ar draws sectorau, llwybrau a rhanbarthau? Er enghraifft, a ellir cyflwyno darpariaeth yn uniongyrchol mewn un rhanbarth, a thrwy is-gontractwyr neu bartneriaid consortiwm yn rhywle arall?**

**3.10.3. Pa gyfyngiadau fydd yn berthnasol ar bartneriaethau ac is-gontractio? A oes cyfyngiadau ar y gyfran neu'r gwerth a gaiff ei (h)is-gontractio, ffioedd rheoli, aelodaeth o gonsortia sy'n gorgyffwrdd neu sefyllfa lle bydd sefydliad yn dal rôl prif ddarparydd ac is-gontractwr?**

1) Yng Ngham 1, rhaid i ymgeiswyr nodi eu model cyflwyno arfaethedig, darparu manylion am is-gontractwyr neu aelodau consortiwm arfaethedig, a disgrifio'r diwydrwydd dyladwy a gyflawnwyd ar y sefydliadau hynny. Mae'n ofynnol hefyd i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth am y rhanbarthau, y sectorau a'r elfennau y bwriedir ymdrin â nhw o fewn y rhaglen. Ni nodir yn y dogfennau unrhyw gytundebau llywodraethu, cytundebau partneriaeth nac ymrwymiadau ffurfiol ychwanegol y mae'n rhaid eu cwblhau yng Ngham 2. Nid ydynt ychwaith yn manylu ar y cytundebau y mae'n rhaid eu sefydlu cyn dechrau cyflwyno prentisiaethau.

2) Mae dogfennau'r cais yn cydnabod amrywiaeth o fodelau cyflwyno, gan gynnwys trefniadau prif ddarparydd, is-gontractio a chonsortiwm, ac yn gofyn i ymgeiswyr ddisgrifio eu model cyflwyno arfaethedig. Mae'r rhaglen hefyd yn annog trefniadau cydweithredol, gan gynnwys modelau consortiwm, sefydliad partner ac is-gontractio. Fodd bynnag, nid yw'r atodiadau'n nodi a ellir defnyddio gwahanol fodelau cyflwyno ar draws gwahanol sectorau, llwybrau neu ranbarthau o fewn un cais.

3) Nid yw'r atodiadau'n nodi unrhyw derfynau'n gysylltiedig â faint o'r gwaith/gwerth y gwaith a gaiff ei is-gontractio, ffioedd rheoli, aelodaeth consortiwm sy'n gorgyffwrdd, nac a all sefydliad gymryd rhan mewn un cais fel prif ddarparydd ac, mewn cais arall, fel is-gontractwr neu bartner. Mae'r broses ymgeisio yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddatgan eu trefniadau a'u partneriaid cyflwyno arfaethedig, ond ni nodir unrhyw gyfyngiadau penodol o'r natur hon yn y dogfennau ymgeisio ac asesu a gyhoeddwyd."

**3.11. A fydd Medr yn cyhoeddi enwau a sector a rhanbarth arfaethedig prif ymgeiswyr llwyddiannus, fel y gall sefydliadau arbenigol gysylltu â nhw i drafod cyfleoedd is-gontractio neu bartneriaeth cyn i'r dyraniadau gael eu pennu'n derfynol?**

Bydd. Byddwn yn cyhoeddi'r ymgeiswyr grant llwyddiannus.

## 4. Amodau Cyllido

### 4.1. Sefydliad AB ydym ni sydd wedi derbyn cymeradwyaeth gan Medr ac sydd ar y Gofrestr Addysg Uwch. A yw bod ar y Gofrestr AU yn golygu ein bod wedi ein heithrio rhag gorfod llenwi Adran 3 yn llwyr, neu rannau o'r adran honno'n unig?

Dylai sefydliadau sydd eisoes yn ddarostyngedig i Amodau Cyllido Medr symud ymlaen yn syth i Adran 4 ac nid yw'n ofynnol iddynt gwblhau'r cwestiynau yn adran 3.

### 4.2. Os ydym eisoes yn sefydliad addysg uwch sy'n derbyn cyllid gan Medr i gyflwyno prentisiaethau, a yw hyn yn golygu y byddwn eisoes wedi ymrwymo i amodau cyllido Medr?

Dylai sefydliadau sydd eisoes yn ddarostyngedig i Amodau Cyllido Medr symud ymlaen yn syth i Adran 4 ac nid yw'n ofynnol iddynt gwblhau'r cwestiynau yn adran 3.

### 4.3. Ar gyfer grwpiau cyfunol, a lle nad yw'r ddarpariaeth y gwneir cais amdani ond yn un agwedd ar weithgarwch y darparydd, ydych chi eisiau'r manylion ariannol ar gyfer y grŵp cyfunol cyfan neu'r sefydliad sy'n cyflwyno prentisiaethau yng Nghymru.

Ar y tab gwybodaeth am y darparydd, gofynnwn am sefyllfa'r grŵp cyfan er mwyn asesu cynaliadwyedd cyffredinol y grŵp (rhes 17) ynghyd â digon o wybodaeth atodol i ddeall yr is-gwmni / adran berthnasol (rhes 18)

### 4.4. Ai dysgwyr masnachol yw'r rhain? Ydyn nhw i gynnwys grwpiau cyfunol?

Dyma ffigur sydd i fod i gynnwys pob dysgwr arall. Os yw'r ffigur cyfunol ehangach ar wahân, ni chaiff y rhain eu cynnwys. Yn gysylltiedig â'r darparydd (ar yr amod bod gennym ddigon o wybodaeth i nodi perfformiad y darparydd ar wahân).

### 4.5. A fydd ardystiad Hanfodion Seiber sylfaenol yn cael ei dderbyn fel tystiolaeth o gydymffurfio â gofynion diogelwch gwybodaeth, neu a oes angen Hanfodion Seiber a Mwy?

Nid yw ardystiad sylfaenol Hanfodion Seiber ar ei ben ei hun yn ddigonol, gan ei fod wedi'i seilio'n bennaf ar hunanasesiad ac nad yw'n rhoi'r sicrwydd technegol annibynnol sydd ei angen.

Fodd bynnag, gall ymgeiswyr ddefnyddio llwybr amgen drwy gyflwyno:

- Tystysgrif Hanfodion Seiber gyfredol; ac
- Adroddiad Archwiliad Iechyd TG (ITHC) neu brawf hacio diweddar a gwblhawyd o fewn y 12 mis diwethaf.

Rhaid i'r asesiad ychwanegol:

- Drafod y systemau a'r seilwaith sy'n cefnogi'r rhaglen brentisiaethau.
- Cael ei gynnal gan ddarparydd annibynnol sydd wedi'i gymeradwyo gan CREST.
- Dangos bod yr holl wendidau Critigol, ac unrhyw wendidau Uchel perthnasol, wedi'u hadfer neu eu derbyn yn ffurfiol fel risg gyda mesurau lliniaru priodol.

Dylai ymgeiswyr sy'n defnyddio'r dull hwn ddarparu crynodeb gweithredol yr asesiad ynghyd â thystiolaeth o gamau adferol. Gall Medr ofyn am ragor o wybodaeth fel rhan o'i adolygiad sicrwydd.

## 5. Prentisiaethau Gradd

### 5.1. Sefydliad AB ydym ni sydd wedi derbyn cymeradwyaeth gan Medr ac sydd ar y Gofrestr Addysg Uwch. Ar dudalen 6 y canllawiau, nodir na chaiff Sefydliadau Addysg Bellach ond ymgeisio am Elfen 1 a 3. Gan ein bod ar y gofrestr hon, a fyddem yn gymwys i wneud cais am Elfen 2?

Mae Elfen 2 yn cwmpasu darpariaeth sy'n arwain at radd baglor ar Lefel 6 ar y FfCChC, a ddyfernir gan sefydliad sydd â phwerau dyfarnu graddau. Y corff dyfarnu graddau sy'n gyfrifol yn y pen draw am ansawdd a safonau academaidd y ddarpariaeth ac felly rhaid i'r cais gael ei arwain gan y darparydd sy'n dal y cyfrifoldeb hwn. Rydym yn annog prifysgolion, fel cyrff dyfarnu graddau, i weithio mewn partneriaeth â cholegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant annibynnol wrth gyflwyno prentisiaethau gradd, er mwyn cefnogi mynediad ehangach at ddarpariaeth lefel gradd. Rydym hefyd yn annog prifysgolion i ystyried lle gellid cael llwybrau dilyniant o brentisiaethau uwch ar lefelau 4 a 5 (a chymwysterau galwedigaethol eraill) i brentisiaethau gradd, yn unol â'n hegwyddor o ystyried dysgu blaenorol cydnabyddedig lle bynnag y bo modd.

Mae cael eich cynnwys ar y Gofrestr Darparwyr Addysg Uwch yn galluogi mynediad at gyllid myfyrwyr ar gyfer darpariaeth addysg uwch, a chymhwystra ar gyfer cyllid addysg uwch ac ymchwil ac arloesi Medr o dan adrannau 88, 89 a 105 o TER(W). Mae darpariaeth prentisiaethau ar bob lefel yn cael ei chyllido drwy adran 104, ac felly nid yw'n gysylltiedig â chael eich cynnwys ar y Gofrestr. Nid yw cael eich cynnwys ar y Gofrestr yn rhoi pwerau i ddyfarnu graddau, ac mae angen proses ar wahân ar gyfer hynny.

## 6. Dyraniadau Cyllid a Grantiau

### 6.1. Pryd y gall darparwyr ddisgwyl cael cadarnhad o'r dyraniadau grant?

Amlinellir y dyraniad grant ym mharagraffau 6.10-6.13 yn Atodiad B y pecyn cais am grant.

### 6.2. A yw Medr wedi asesu'r effaith bosibl ar ddyraniadau darparwyr, niferoedd dysgwyr a chynaliadwyedd cyffredinol os bydd nifer y derbynwyr grantiau yn cynyddu heb gynnydd cyfatebol yn y gyllideb ar gyfer prentisiaethau?

Bydd dyraniadau'n sicrhau bod y grant yn cwmpasu pob sector a rhanbarth yng Nghymru, ac yn cefnogi darpariaeth prentisiaethau o ansawdd uchel, gan gynnwys rhoi blaenoriaeth i ddysgwyr sy'n parhau.

Mae'r dyraniadau grant isafswm wedi'u hamlinellu ym mharagraff 17 yn y cyhoeddiad.

### 6.3. Sut yr ymdrinnir â chyfleoedd am dwf, addasiadau i'r dyraniad a newidiadau yn ystod y flwyddyn yn ystod y cyfnod grant o bedair blynedd?

Mae pob dyraniad yn ddibynnol ar ddyraniadau cyllidebol, felly, nid oes gan unrhyw ymgeisydd hawl gyllidebol warantedig. Cynigir cyfleoedd am dwf neu i wneud newidiadau yn ystod y flwyddyn yn seiliedig ar nifer o benderfyniadau. Bydd y rhain yn cynnwys capasiti darparwyr i gynyddu'r ddarpariaeth, perfformiad darparwyr, blaenoriaethau rhanbarthol a blaenoriaethau o ran sector. Cyn gynted ag y bo'r ceisiadau wedi'u hasesu a'r llythyrau dyfarnu grantiau wedi'u hanfon at y darparwyr llwyddiannus, bydd Medr yn cyhoeddi'r dyraniadau grant. Bwriedir i hyn ddigwydd ym mis Ebrill 2027.

### 6.4. Nid yw'n ymddangos fel pe bai'r trothwyon isaf ac uchaf ar gyfer gwerth grant yn cael eu cymhwyso mewn modd cyson ar draws yr holl elfennau prentisiaeth. Pam hynny?

Mae pob elfen wedi cael ei hasesu'n unigol, a'r trothwyon isafswm ac uchafswm cyfatebol wedi'u pennu'n seiliedig ar yr asesiad hwnnw.

Er enghraifft, ni fyddem yn gallu cymhwyso trothwy isafswm o £5m i'r elfen prentisiaethau gradd gan mai £9,930,967 yw'r gyllideb gyfredol. Byddai hyn yn lleihau nifer y darparwyr sy'n gallu darparu prentisiaethau gradd ledled Cymru.

### 6.5. Beth yw cyfanswm gwerth y Grant sydd ar gael ar gyfer pob un o'r 3 elfen, ac a yw Medr wedi dyrannu gwerth ariannol i bob elfen?

Mae pob dyraniad yn ddibynnol ar ddyraniadau cyllidebol, felly, nid oes gan unrhyw ymgeisydd hawl gyllidebol warantedig. Cynigir cyfleoedd am dwf neu i wneud newidiadau yn ystod y flwyddyn yn seiliedig ar nifer o benderfyniadau. Bydd y rhain yn cynnwys capasiti darparwyr i gynyddu'r ddarpariaeth, perfformiad darparwyr, blaenoriaethau rhanbarthol a blaenoriaethau o ran sector.

### 6.6. Pryd fydd darparwyr yn derbyn llythyrau dyfarnu sy'n nodi gwerth y grant?

Gwneir dyraniadau grant yn dilyn y llythyr dyfarnu grant. Rhagwelir y bydd dyraniadau'n cael eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2027.

### 6.7. Faint sydd wedi'i ddyrannu i'r Gyllideb Costau Ychwanegol ac a fyddai hyn yn rhan o'r Dyfarniad Grant Prentisiaeth neu wedi'i bennu fel gwerth ychwanegol?

Amlinellir y fethodoleg ar gyfer dyrannu'r grant ym mharagraffau 6.10-6.13 yn Atodiad B y pecyn cais am grant.

### 6.8. Beth yw'r broses ddyrannu ar gyfer Elfen 1?

Amlinellir y broses ddyrannu ar gyfer elfen 1 yn Adran 6.10-6.13 o Atodiad B (Canllawiau'r Rhaglen) y pecyn cais.

Bydd Medr yn darparu dyraniad grant sylfaenol i ddarparwyr sy'n bodloni amodau'r rhaglen i'w galluogi i gynllunio adnoddau a darpariaeth ar gyfer y dyfodol a chefnogi hyfywedd ariannol. Bydd swm y grant a ddyrennir yn amodol ar y gyllideb a ddyrennir gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y dyraniad grant yn seiliedig ar:

- Ragdybiaethau dyrannu sylfaenol dangosol, gan gynnwys y meincnod capasiti y cyfeirir ato ym mharagraff 1.4 o Atodiad B a'r dyraniad a ddisgwylir yn y flwyddyn gyntaf ar gyfer derbynwyr newydd, yn dibynnu ar y fethodoleg dyrannu, amodau'r rhaglen a'r gyllideb sydd ar gael.
- Nifer y dysgwyr sy'n parhau.
- Nifer y dysgwyr wedi'u dadleoli (os o gwbl).
- Dysgwyr newydd yn dechrau.
- Blaenoriaethau o ran sgiliau fel y'u nodir gan Lywodraeth Cymru.
- Anghenion economaidd rhanbarthol.
- Dyraniad y gyllideb costau ychwanegol.

Bydd darparwyr yn gallu rheoli'r buddsoddiad a ddyrennir iddynt mewn modd hyblyg i'w galluogi i fodloni'r disgwyliadau a nodir yng nghanllawiau'r rhaglen.

### 6.9. A fydd darparwyr presennol yn derbyn yr un lefel o gyllid â'r contractau a gaffaelir yn tro hwn?

Er mwyn cael eu hystyried ar gyfer dyfarniad grant o dan elfen A, rhaid i ymgeiswyr ddangos bod ganddynt y gallu, naill ai'n unigol neu drwy drefniadau cydweithredol priodol, i reoli cyllid grant ar raddfa ddigonol i gefnogi amcanion y rhaglen, gan gynnwys y gallu i ymateb i flaenoriaethau sy'n newid. I ddibenion cynllunio a sicrwydd, mae Medr yn disgwyl i ymgeiswyr allu dangos y capasiti i reoli grant gwerth hyd at £5m y flwyddyn, gan gynnwys dechreuwyr newydd a dysgwyr sy'n parhau. Meincnod gallu yw hwn ac nid yw'n gwarantu dyraniad o'r swm hwnnw. Defnyddir y ffigurau hyn i asesu cynaliadwyedd ariannol, y capasiti i gyflwyno a'r risg yn gysylltiedig â rhaglenni, ac nid ydynt yn creu unrhyw warant o gyllid, nac o hawl i gael cyllid.

Bydd y dyraniadau ar gyfer pob darparydd yn cael eu hystyried yn deg (fel yr amlinellir yn Adran 6.10-6.13 o Atodiad B), yn dilyn asesiad Cam 1 a Cham 2 a'u canlyniadau dilynol. Bydd dyraniadau'n cael eu pennu gan ystyried y cyllid sydd ar gael, blaenoriaethau strategol ac amcanion y rhaglen. Gan hynny, nid oes unrhyw ddarparydd presennol yn cael gwarant y bydd yn cael dyraniad grant o'r un gwerth â'i gontract caffael cyfredol. Bydd y dyraniadau'n cael eu pennu ar ôl i'r broses asesu gael ei chwblhau.

## 7. Cyffredinol

### 7.1. A yw Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (TUPE) yn berthnasol i staff sydd ar hyn o bryd yn cael eu cyflogi gan ddarparwyr o dan y contractau a gaffaelir?

Mae'r penderfyniad ynghylch a allai TUPE fod yn berthnasol yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol yn gysylltiedig â'r trosglwyddiad posibl. Bydd derbynwyr yn gyfrifol

am gymryd camau diwydrwydd dyladwy eu hunain a chael eu cyngor cyfreithiol annibynnol eu hunain, i ganfod a yw TUPE yn gymwys, ai peidio, i'w hamgylchiadau.

## 8. Perfformiad a Deilliannau Dysgwyr

### 8.1. Pa fesurau perfformiad a disgwyliadau gofynnol fydd yn berthnasol o dan drefniadau'r grant newydd, yn enwedig o ran cwblhau'n amserol, cyfraddau cyflawniad, symud ymlaen i gyflogaeth a deilliannau cynaliadwy?

Mae'n ofynnol i ddarparwyr gydymffurfio ag Amod Medr: Ansawdd a Gwelliant Parhaus

Disgwylir y bydd yr ymagwedd unigoledig at hyd y rhaglen yn gwella'r cyfraddau dilyniant amserol.

Bydd y targed cyflawniad presennol yn aros ar 75%, ond bydd hynny'n cael ei adolygu'n barhaus a gall Medr gymryd camau priodol os na chyrhaeddir trothwyon.

Byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr a chyflogwyr i gefnogi gwelliant parhaus, gan gryfhau cyfleoedd am ddilyniant a gwella deilliannau parhaol i ddysgwyr.  Atodiad B 4.7 – 4.10 Deilliannau dysgwyr

## 9. Cyflwyno Rhaglenni a Chymwysterau

### 9.1. Sut fydd y model prentisiaethau newydd yn cefnogi hyblygrwydd a'r gallu i ymateb i anghenion cyflogwyr a dysgwyr?

Gweler Atodiad A Ffurflen Cais am Grant y Rhaglen Brentisiaethau Cam 2 ac Atodiad B Adran 3 Rolau a Chyfrifoldebau.

Yn rhan o'r broses ymgeisio, rydym yn ceisio gwybodaeth gan ymgeiswyr ynghylch sut y byddent yn cefnogi cyflogwyr ac yn ymateb i anghenion economaidd mewn modd hyblyg.

### 9.2. Pa rôl fydd gan ficrogymwysterau, Unedau Sgiliau Gyrfa a mathau eraill o ddysgu heb eu rheoleiddio wrth gyflwyno prentisiaethau yn y dyfodol?

Mae gwybodaeth am ficrogymwysterau wedi'i chynnwys ym mharagraffau 4.23-4.25 yn Atodiad B y Pecyn cais am grant.

Bydd Sgiliau Gyrfaoedd a chymwysterau eraill heb eu rheoleiddio yn rhan o'r fframwaith Prentisiaethau.

Mae Medr yn cefnogi'r defnydd o gymwysterau a gydnabyddir drwy FfCChC a chymwysterau addysg uwch sydd y tu hwnt i drefniadau rheoleiddio Cymwysterau Cymru ar yr amod bod y cymwysterau'n bodloni gofynion deddfwriaethol. Bydd hyn yn parhau i gael ei gryfhau wrth weithredu'r grant.

### 9.3. A all Medr egluro'r gwahaniaeth rhwng Cydnabod Dysgu Blaenorol (CDB) a Chydnabod Cyflawniad Blaenorol (CCB)?

Ystyr cyflawniad blaenorol yw llwyddo i ennill cymhwyster cydnabyddedig yn llawn.

Gall dysgu blaenorol gyfeirio at gwblhau cymhwyster yn rhannol neu ddysgu heb ei achredu.

Ni fyddwn ond yn ystyried cyflawniad blaenorol cydnabyddedig i ddibenion cyllido ar hyn o bryd, ond byddem yn disgwyl i darparwyr roi ystyriaeth i unrhyw ddysgu blaenorol cydnabyddedig yn gysylltiedig â chyflwyno'r rhaglen ddysgu unigol. Gallai hyn newid ar unrhyw bryd tra bo'r grant yn weithredol

### 9.4. Sut fydd rheolau cymhwystra dysgwyr yn cael eu diogelu ar gyfer y dyfodol yn erbyn mentrau cyflogaeth, lles neu sgiliau ehangach Llywodraeth y DU?

Os bydd unrhyw reolau cymhwystra yn newid yn sgil rhaglenni sgiliau LlC neu'r DU, bydd darparwyr yn cael gwybod a bydd Canllawiau'r Rhaglen yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen.

## 10. Rhwydwaith Darparwyr, Pontio Dysgwyr ac Adolygu'r Rhaglen

### 10.1. Mae'r canllawiau'n cyfeirio at adolygiad ffurfiol ar ôl pedair blynedd. Sut y bydd hyn yn cael ei drefnu?

Bydd y grantiau cychwynnol yn cael eu dyfarnu am gyfnod o bedair blynedd. Gellir gwneud mân newidiadau i ganllawiau'r rhaglen yn ystod y pedair blynedd cyntaf er mwyn ymateb i amgylchiadau newidiol. Os bydd darparwyr yn parhau i fodloni amodau grant y rhaglen ac yn parhau i gydymffurfio â gofynion fframwaith rheoleiddio Medr, byddant yn parhau i dderbyn buddsoddiad yn dilyn y dyfarniad cychwynnol.

Cynhelir adolygiad ffurfiol o'r rhaglen ar ôl pedair blynedd a allai arwain at newidiadau mwy sylweddol; bydd hefyd yn gyfle i ddarparwyr pellach wneud cais am, a derbyn, cyllid grant o dan y rhaglen, yn unol ag amodau'r rhaglen, a'r gyllideb sydd ar gael.

## 11. Sectorau, Rhanbarthau a Threfniadau Cyflwyno

### 11.1. Ar gyfer adran *Fframweithiau a Rhanbarthau y Cynigir Cyflwyno Ynddynt* yn Atodiad A (tudalennau 11-12), a ddylid ateb y cwestiynau a restrir ar dudalen 11 o fewn y tabl ar gyfer pob sector/fframwaith a gynigir? Yn ogystal â hyn, sut y dylid cofnodi'r ddarpariaeth lle bo'r hyfforddi ac asesu yn digwydd ar safle'r cyflogwr yn hytrach nag yng nghyfleusterau'r darparydd?

Gellir cyfuno ymatebion lle bo'n briodol ar draws sectorau a/neu ranbarthau, ar yr amod bod yr wybodaeth yn parhau i fod yn glir ac yn dangos gallu'r ymgeisydd i gyflwyno'r ddarpariaeth a gynigir. Gall ymgeiswyr hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol y maent yn ei hystyried yn berthnasol.

### 11.2. Yn ôl y canllawiau ni ddylid cynnwys mwy na 50% o weithgarwch a gyllidir gan ddarparydd o fewn un sector. A yw hyn yn ddisgwyliedig neu'n orfodol?

Rhaid i'r rhaglen allu ymateb i flaenoriaethau economaidd rhanbarthol a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran sgiliau, a'u bodloni, gan gynnwys ymateb i dechnolegau sy'n newid a'r angen am sgiliau gwyrdd.

Rhaid i ddarparwyr allu dangos y byddant yn defnyddio'r cyllid grant i gyflwyno'r ddarpariaeth ar draws ystod o feysydd sector allweddol, a'u bod yn gallu ymateb i flaenoriaethau sy'n newid. Mae hyn felly ymhlith gofynion y cyllid grant. Ceir gwybodaeth bellach ym mharagraffau 2.12-2.13. Atodiad B 2.12-2.13.

## 12. Rhannu Prentisiaethau

### 12.1. Mewn modelau rhannu prentisiaeth, a yw'r darparydd prentisiaethau'n gallu gweithredu fel y sefydliad arweiniol a chyflogwr y prentis?

Ydy

### 12.2. Pa gyfrifoldebau y disgwylir i ddarparwyr eu cyflawni mewn perthynas â materion cyflogaeth fel cyflog, hawl i wyliau, absenoldeb salwch, prosesau disgyblu a threfniadau cyflogaeth cytundebol eraill?

Atodiad CH Rolau a Chyfrifoldebau. Darperir canllawiau pellach ar rannu prentisiaethau, gan weithio mewn partneriaeth â darparwyr.